**EITEM AR YR AGENDA: 8**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

**GWEITHGAREDD RHEOLI'R TRYSORLYS HYD 28 CHWEFROR 2007**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** O dan God Ymarfer Rheoli'r Trysorlys, mae'n ofynnol i'r Trysorydd gynghori'r Awdurdod Tân ac Achub drwy gydol y flwyddyn o unrhyw weithgaredd mewn perthynas a benthyciadau tymor hir, buddsoddiadau a newidiadau i wrth-bartïon yr Awdurdod.

### Benthyca Tymor Hir

**2.** Nid oes gweithgaredd mewn benthyca tymor hir ers Adroddiad Rheoli'r Trysorlys diwethaf yn Rhagfyr. Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub a disgwylir y bydd benthyca ychwanegol yn cael ei wneud ym Mawrth pan fydd y ffigwr alldro terfynol am wariant ar y rhaglen cyfalaf yn hysbys.

**Buddsoddiadau**

**3.** Yn Ionawr 2007 ad-dalwyd £1m i'r Awdurdodau Cyfansoddol o'r Ddarpariaeth Pensiwn fel a fanylwyd mewn adroddiad i'r Awdurdod Tân ar 18 Rhagfyr 2006. O ganlyniad i'r ad-daliad, mae'r lefel o arian sydd wedi ei ddal gan yr Awdurdod Tân ar gyfer buddsoddi wedi gostwng. Yn ffodus, gwnaed yr ad-daliad tuag at ddiwedd y flwyddyn a, gyda'r cynnydd yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr, disgwylir derbyn £210k o log buddsoddiadau i'r gyllideb alldro.

**Gwrth-bartïon**

**4.** Nid oes unrhyw newidiadau yn y rhestr gwrth-bartïon ers yr adroddiad diwethaf.

**Argymhelliad**

**5.** Fod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.